**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Ebrill 2020

Annwyl Elin,

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2020 ("y Gorchymyn")**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10, paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn ynghlwm er gwybodaeth ichi.

**Cefndir**

Mae'r Gorchymyn yn mewnosod Rhan 3A newydd yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y prif Orchymyn"). Pan fydd datblygiad yn dod o dan delerau'r prif Orchymyn, mae'r prif Orchymyn yn rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ac nid yw'n ofynnol gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Nod y Gorchymyn yw galluogi cyrff gwasanaeth iechyd i wneud gwaith datblygu penodol at ddibenion atal neu reoli argyfwng iechyd y cyhoedd yn y Deyrnas Unedig, amddiffyn yn erbyn argyfwng o'r fath neu ymateb iddo. Y datblygu a ganiateir yw newid defnydd adeilad neu dir mewn unrhyw ddosbarth yn yr Atodlen i Orchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 neu unrhyw ddefnydd arall i Ddosbarth C2 (Sefydliadau Preswyl) neu Ddosbarth D1 (Sefydliadau Amhreswyl), a darpariaeth adeiladau neu strwythurau eraill.

At ddiben y Rhan 3A newydd, mae argyfwng iechyd y cyhoedd yn ddigwyddiad neu sefyllfa sy'n arwain at, neu a allai arwain at, bobl yn marw, salwch neu anafiadau difrifol i bobl; neu amharu difrifol ar wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i amodau sydd hefyd yn cael eu hamlinellu yn y Rhan 3 newydd. Maent yn cynnwys amod bod rhaid i'r datblygwr sydd wedi gwneud y

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 029 20823936
@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

gwaith datblygu atal rhag defnyddio’r tir/adeiladau at y dibenion brys 12 mis ar ôl iddo ddechrau neu ynghynt; rhaid tynnu strwythurau ac offer ac ati a rhaid adfer yr adeilad/tir i’w gyflwr/defnydd blaenorol (neu gyflwr y cytunir arno).

Mae angen i’r Gorchymyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd, i alluogi cyrff gwasanaeth iechyd i wneud gwaith datblygu yn unol â Rhan 3A. Byddai hyn yn galluogi, er enghraifft, sefydlu ysbytai dros dro a gorsafoedd profi ar dir nad yw awdurdod lleol na’r Goron yn berchen arno nac yn ei reoli, megis arenâu chwaraeon preifat.

Os nad yw’r Gorchymyn yn dod i rym bydd yn ofynnol i gyrff gwasanaeth iechyd wneud cais am ganiatâd cynllunio i wneud gwaith datblygu o’r fath. Mae’r Gorchymyn yn ceisio osgoi’r oedi anochel a fyddai’n gysylltiedig â gwneud a phrosesu ceisiadau o’r fath. O ystyried yr amgylchiadau ynghylch y clefyd COVID-19, sydd yn y categori “argyfwng iechyd y cyhoedd” at ddibenion y Gorchymyn, yn enwedig y ffordd gyflym mae’n datblygu, credir bod rheswm a chyfiawnhad dros beidio â dilyn y rheol 21 diwrnod yn yr achos hwn.

Oherwydd disyfydrwydd y Gorchymyn nid yw wedi bod yn destun ymgynghoriad; fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a’i osod, ynghyd â’r rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o’r llythyr hwn yn mynd at Mick Antoniw AC, Pennaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr Pwyllgorau, a Julian Luke Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd